

### Swydd Ddisgrifiad

Swydd:	<b>Swyddog Cynorthwyol Rhabarthol (gogledd Cymru)</b>
Lleoliad	Gartref, gyda disgwyliad o deithio a gweithio mewn modd hyblyg*
Oriau:	Rhan amser (tua 17.5 awr bob wythnos) (Hyblygrwydd yn ofynnol a darperir opsiynau o ran gweithio'n hyblyg)
Cytundeb:	Cytundeb blwyddyn (cyfnod penodedig ac adnewyddadwy)
Atebol i:	Y Pennaeth Gwasanaethau

Dyddiad sydd wedi'i baratoi: Mehefin 2022

Mae FCN yn elusen ac yn sefydliad gwirfoddol sy'n gweithredu ledled Cymru a Lloegr. Rydym yn darparu cymorth cyfrinachol ac am ddim deuluoedd sy'n ffermio ac yn wynebu anawsterau sy'n achosi straen a phryder iddynt yn y diwydiant amaeth neu gartref. Mae llawer o'n 400 gwirfoddolwr yn hanu o gefndir amaethyddol, ac mae'r gymued amaethyddol yn ymddiried ynom. Mae FCN yn awyddus i ddatblygu'n presenoldeb a'n gwasanaethau yng Nghymru, gan ymateb i'r ansicrwydd cynyddol yn y sector amaethyddol.

### **Rydym yn recriwtio Swyddog Cynorthwyol Rhanbarthol rhan amser (gogledd Cymru) a fydd yn atebol i'r Pennaeth Gwasanaethau, sydd wedi ei leoli'n Lloegr.**

Byddwch yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr a gwirfoddolwyr yng Nghymru i sicrhau bod FCN yn darparu gwasanaeth rhagorol a chydymdeimladol i'r ffermwyr rydym yn eu cefnogi. Bydd hyn yn cynnwys hwyluso a chynnal hyfforddiant, rheoli darparu gwaith achos, gweithio gyda Chydlynwyr y Gwirfoddolwyr i gefnogi'r prosesau recriwtio a sefydlu gwirfoddolwyr a chwarae rhan allweddol mewn datblygu ymwybyddiaeth o FCN yn y wlad. Byddwch hefyd yn cynorthwyo gyda chyfleoedd cysylltiadau cyhoeddus lleol ac yn datblygu cyfleoedd codi arian a hyfforddiant, gan weithio'n agos gyda chydweithwyr eraill i oruchwylio'r meysydd hyn.

Byddwch yn rhan o dîm FCN Cymru sy'n cynnwys dau aelod arall o staff.

Mae nawr yn amser cyffrous i fod yn ymuno â FCN – rydym yn gweithredu ein strategaeth bum mlynedd, 'Fit for a New Farming Future' (2020-25), ac rydym yn gweithio gydag ystod eang o randdeiliaid i greu dyfodol ffermio gwydn ar gyfer y genhedlaeth nesaf o ffermwyr.

Byddwch yn gweithio o'ch menter eich hun am lawer o'r amser, a bydd angen trwydded yrru ddilys, lân a chlodiant eich hun. Caiff treuliau milltired eu had-dalu. Byddwch yn cydymdeimlo â chenhadaeth ac ethos FCN, sy'n seiliedig ar egwyddorion Cristnogol.

### **Prif Dasgau:**

Byddwch yn chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi gwirfoddolwyr yng Nghymru ac yn helpu i hybu enw da FCN. Gan ddefnyddio eich gwybodaeth helaeth am y sector ffermio yng Nghymru, chi fydd y prif gyswllt ar gyfer gwirfoddolwyr yn y rhanbarth, gan oruchwylio a gweithredu fel pwynt cyswllt rhwng gwirfoddolwyr a thîm y swyddfa genedlaethol.

Byddwch hefyd yn gweithio gyda gwirfoddolwyr lleol ac yn eu cefnogi i gyfathrebu gyda ffermwyr a gweithwyr fferm a'u teuluoedd mewn marchnadoedd, sioeau ac achlysuron eraill fel y bo'n briodol. Bydd gennych sgiliau cyfathrebu a chyflwyno rhagorol a byddwch yn hyderus o flaen cynulleidfaoedd.

Bydd gennych sgiliau trefnu cryf a phrofiad o gyfathrebu a gweithio gyda grwpiau mawr ar draws sawl safle a lleoliad.

**Mae cyfrifoldebau allweddol ar gyfer y rôl hon yn cynnwys:**

- Rheoli dyraniad gwaith achos, cyfeirio a dilyn i fyny (cydgyssylltu â Chydlynwyr Gwirfoddolwyr a gwirfoddolwyr gwaith achos).
- Goruchwylio / rheoli achosion yn y rhanbarth.
- Hwyluso a chynnal hyfforddiant ar gyfer Grwpiau Sirol FCN (gyda chefnogaeth yr Arweinydd Rhanbarthol).
- Bod yn gyswllt ag ymgynghorwyr proffesiynol ac asiantaethau rhanbarthol trwy'r Rhwydwaith Gwasanaethau Proffesiynol.
- Cefnogi a chysylltu â gwirfoddolwyr, cydlynwyr gwirfoddolwyr, aelodau eraill o staff a rheoli'r broses recriwtio a sefydlu gwirfoddolwyr a datblygu arfer gorau.
- Sicrhau bod DBS gwirfoddolwyr a gofynion diogelu yn gwbl sicr.
- Cynnal sesiynau sefydlu, cymorth gwirfoddolwyr blynyddol a gwerthusiadau datblygu.
- Darparu adroddiadau rheolaidd i'r tîm rheoli.
- Cefnogi ymateb brys ar sail ranbarthol e.e. digwyddiadau tywydd ac achosion o glifydau
- Cynorthwyo gyda hyfforddiant mewnol ac allanol a nodi a datblygu cyfleoedd codi arian

**Manyleb swydd Swyddog Cymorth Rhanbarthol (Gogledd Cymru):**

Meini prawf gofynnol:

- Gwybodaeth helaeth am y diwydiant ffermio yng Nghymru.
- Medru'r Gymraeg
- Gallu rhoi arweiniad i wirfoddolwyr pan fo angen.
- Trwydded yrru lawn, lân a mynediad i'ch cerbyd eich hun.
- Hyderus, dymunol, gallu hyrwyddo FCN ac addasu i ddiwylliant yr elusen.
- Sgiliau cyfathrebu wyneb yn wyneb ac ar-lein ardderchog.
- Sgiliau cysylltiadau cyhoeddus da ac yn gallu datblygu perthynas â'r wasg a datblygu cyfleoedd codi arian.
- Gallu defnyddio rhaglenni cyfres MS Office gan gynnwys Word, Excel a PowerPoint.
- Sgiliau rheoli prosiect rhagorol a gall weithio i derfynau amser.
- Chwaraewr tîm sy'n llawn cymhelliant ac yn gallu gweithio'n annibynnol am gyfnodau hir.
- Y gallu i weithio gartref a gweithio mewn modd symudol a hyblyg.
- Wedi arfer gweithio'n effeithiol mewn timau bach a thrwy dechnolegau 'o bell' fel Zoom.

**Cymwysterau dymunol:**

- Cefndir mewn ffermio neu fusnesau cysylltiedig – gallu trafod materion ffermio yn wybodus.
- Wedi gweithio yn y sector elusennol o'r blaen.
- Wedi cwblhau Addysg Uwch (Safon Uwch, HNC, HND, gradd sylfaen, baglor i gyd yn cael eu hystyried).

**Y cyflog ar gyfer y rôl hon yw £25,200 pro rata. (h.y. 17.5 awr yr wythnos – £12,600)**

\*Efallai y gofynnir i chi hefyd gefnogi'r rhanbarthau cyfagos os oes angen mewn sefyllfaedd brys neu i gyflenwi dros wyliau blynyddol neu absenoldebau. Efallai y bydd achlysuron pan fydd angen mynychu digwyddiadau gyda'r nos neu ar benwythnosau. Yn yr achosion hyn, bydd iawndal yn cael ei ystyried fesul achos ar ffurf amser i ffwrdd yn lle hynny.

I wneud cais am y rôl hon, anfonwch CV a llythyr mynegi diddordeb, gan nodi sut rydych yn bodloni'r meini prawf a amlinellwyd i [debbie@fcn.org.uk](mailto:debbie@fcn.org.uk) erbyn 15 Gorffennaf 2022.

Mae FCN yn gyflogwr cynhwysol ac yn croesawu ceisiadau gan unrhyw un sy'n cefnogi ein cenhadaeth, ein hethos a'n gwaith sy'n helpu i greu dyfodol llewyrchus i ffermio yn y DU.